

Housemates, Mark Douet

Pecyn Swydd

Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid

[Cyfnod Mamolaeth]

Cyflog Cychwynnol: £37,000 y flwyddyn pro-rata
(cyflog gwirioneddol am gontract 9 mis: £16,650)
Oriau: Rhan-amser, 22.5 awr yr wythnos
Contract: 9 mis i gwmpasu absenoldeb mamolaeth
Dyddiad cau ceisiadau: 09/11/2026 canol nos

Hijinx

CROESO

Diolch yn fawr i chi am eich diddordeb yn Hijinx ac yn ein swydd Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid. Rydym yn wirioneddol falch eich bod chi yma.

Yn Hijinx mae datblygu artistiaid yn ganolog i'n cenhadaeth. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo artistiaid ag anabledd dysgu a/neu awtistig, gan eu cefnogi i ddatblygu eu hymarfer creadigol, sgiliau, hyder ac uchelgais, a chreu cyfleoedd i weithio'n broffesiynol yn Hijinx ac ar draws y diwydiannau creadigol ehangach. Credwn mewn creu'r amodau i bobl dyfu, llunio cysylltiadau ystyrlon, cymryd risgiau creadigol a ffurfio eu dyfodol creadigol eu hunain. Rydym hefyd yn credu'n ddwfn yng ngwerth y celfyddydau wrth gynyddu hyder, cysylltiadau a sgiliau bywyd, ac mewn creu mannau lle gall pobl archwilio eu creadigrwydd a darganfod beth sy'n bosibl iddyn nhw.

Dros y blynyddoedd rydym wedi llunio ymdeimlad cryf o gymuned a diwylliant sy'n gynnes, cefnogol, uchelgeisiol ac, yn bwysig, yn llawen. Credwn bod pobl yn gwneud eu gwaith gorau pan fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu dwyn eu hunain yn llwyr i'r hyn y maent yn ei wneud. Rydym yn gobeithio y byddwch yn profi'r ysbryd hwnnw trwy gydol y broses.

Os hoffech chi sgwrsio am unrhyw beth cyn ymgeisio, neu os oes rhywbeth y gallwn ni ei wneud i'ch cefnogi chi neu wneud y broses recriwtio yn fwy hygyrch, cysylltwch trwy jobs@hijinx.org.uk.

Diolch eto am roi amser i ystyried ymuno â Hijinx. Rydym yn gwirioneddol edrych ymlaen at ddysgu mwy amdanoch chi, eich profiad a'r syniadau, sgiliau ac egni y gallech chi eu dwyn i gefnogi ein gwaith datblygu artistiaid yn ystod y cyfnod mamolaeth hwn.

Amy Griggs, Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid



Coblyn, Kirsten McTernan

AM Hijinx

EIN GWELEDIGAETH

Byd lle mae pobl ag anableddau dysgu a/neu bobl awtistig yn cael eu grymuso a'u gwerthfawrogi, ac yn cael mynediad teg at gyfleoedd fel artistiaid ac ym mhob agwedd ar fywyd.

EIN CENHADAETH

Ni yw prif gwmni theatr cynhwysol Cymru. Rydym yn pledio achos artistiaid ag anabledd dysgu a/neu awtistig trwy:

- Greu theatr y mae'n rhaid i chi ei weld yn cael ei yrru gan ein hartistiaid sy'n teithio i gynulleidfaoedd trwy Gymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol
- Datblygu a chefnogi artistiaid i weithio'n broffesiynol yn Hijinx a thu hwnt.
- Trwy ymgysylltu creadigol, llunio cymuned, hyder a sgiliau bywyd.

Defnyddio llawenydd fel ffurf ar wrthsafiad, rydym yn creu gwaith sy'n procio, yn llawn effaith ac yn eithriadol o adloniadol.



Lost and Found, Jonathan Dunn

BETH RYDYN NI'N EI WNEUD

Mae Hijinx yn creu theatr wefreiddiol a gwrthdroadol sy'n cael canmoliaeth uchel ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth yn cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd wrth lunio a pherfformio eu storïau.

Mae Academïau Hijinx yn darparu'r unig gwrs hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru ar gyfer actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddwch yn dod o hyd iddynt yn unman arall. Rydym yn cynnal pum Academi ledled Cymru sydd â thros 60 o actorion dan hyfforddiant.

Drwy Hijinx Actors, rydym yn hyrwyddo ein hactorion i'r diwydiannau celfyddydol a chreadigol ehangach, yn ogystal â chynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ein gwaith hyfforddi cyfathrebu sydd wedi ennill gwobrau. Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd ymgysylltu creadigol yng Ngogledd a De Cymru.

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywio.

Rydym yn CREU NEWID trwy fyw ac anadlu ein Nodau:





1. Cynyddu cynrychiolaeth rhai ag anabledd dysgu/awtistiaeth ar y llwyfan a'r sgrin.

"Mae Hijinx wedi newid fy mywyd. Mae'n wych bod gyda Hijinx, rydych yn teimlo'n rhydd a'ch bod yn gwneud mwy gyda'ch bywyd. Rydych yn cael cyfleoedd nad ydych yn disgwyl iddyn nhw ddigwydd."
– Victoria Walters, Actor Hijinx



2. Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.



3. Cynyddu mynediad at y celfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru.



4. Darparu, pledio o blaid a hwyluso cyflogaeth broffesiynol i artistiaid proffesiynol creadigol ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.



5. Trawsnewid y sector i weithio'n fwy cynhwysol.

DISGRIFIAD SWYDD

CYFARWYDDWR DATBLYGU ARTISTIAID

Mae Hijinx yn recriwtio Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid ar sail rhan-amser, dros dro dros gyfnod mamolaeth. Mae'r Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid yn arwain ar ddatblygu a chyflawni rhaglen ddatblygu artistiaid y cwmni, mewn partneriaeth agos gyda'r Cyfarwyddwr Artistig, gan sicrhau eu bod yn darparu profiadau hyfforddi o safon uchel i artistiaid Hijinx wrth baratoi at ddatblygu prosiectau Hijinx a chyflogaeth o fewn Hijinx a'r diwydiannau creadigol ehangach.

Y Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid yw'r arweinydd strategol a gweithredol i'n holl hyfforddiant i artistiaid ag anabledd dysgu a/neu awtistig, ac mae'n gyfrifol am ddatblygiad a gwelliant parhaus y cynnig hwnnw.

Mae'r swydd yn gofyn am gydweithio agos ar draws y sefydliad i ddynodi cyfleoedd i'n hartistiaid wrth hyfforddi, a helpu i sicrhau trosglwyddiad llyfn i gyfleoedd proffesiynol yn fewnol ac allanol.

Fel aelod o'r uwch dîm arwain, mae gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb ar y cyd am strategaeth y sefydliad, gwytnwch ariannol, llywodraethiant, diwylliant a dulliau gweithio.

Am gyfnod y cyfnod mamolaeth hwn, bydd y swydd yn cael ei gweithredu ar sail 3 diwrnod yr wythnos. Bydd deiliad y swydd yn rhoi parhad a goruchwyliaeth weithredol effeithiol dros y rhaglen Datblygu Artistiaid, gan gynnal darpariaeth o safon uchel a chefnogi artistiaid, cyfranogwyr, staff a chysylltiadau allweddol. Bydd y pwyslais yn ystod y cyfnod hwn ar ddarparu a rheoli effeithiol ar raglenni a blaenoriaethau sy'n bodoli, yn hytrach na datblygu strategol sylweddol neu newid.

Bydd gennych brofiad o swydd debyg yn cefnogi datblygiad proffesiynol a dylech fod yn rheolwr pobl medrus.



Crabulous! Kirsten McTernan



Meet Fred, Kirsten McTernan

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Artistiaid dan Hyfforddiant

- Rheoli a gweinyddu hyfforddiant trwy Gymru gan Hijinx i artistiaid (trwy Academïau a Sylfeini Drama Hijinx), gan gynnwys rheoli'r Swyddog Datblygu Artistiaid, y Cydlynwyr Datblygu Artistiaid a'r Rheolwr Asiantaeth.
- Gweithredu'r rhaglen ar gyfer Academïau a Sylfeini Drama, gan ddynodi cyfleoedd i gynyddu sgiliau, profiad a phroffesiynoldeb Actorion Hijinx a'r cyfranogwyr.
- Sicrhau bod cronfa fedrus iawn o diwtoriaid llawrydd yn cael ei meithrin a all gynnig rhaglen amrywiol a heriol i'n hartistiaid dan hyfforddiant.
- Sicrhau bod cronfa hyderus ac ymroddedig o Hwyluswyr Cynorthwyol yn cael ei meithrin a'i chynnal, gan roi cymorth a gofal o safon uchel i'n hartistiaid dan hyfforddiant.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol ac yn allanol i ddynodi meysydd i'w datblygu, gan lunio cysylltiadau cryf a chynhyrchiol.
- Trwy'r Cydlynwyr Datblygu Artistiaid, sicrhau monitro effeithiol ar artistiaid a chyfranogwyr dan hyfforddiant, gan olrhain eu cynnydd, cefnogi unigolion a sicrhau bod y rhaglen yn ymateb i anghenion unigolion a'r sefydliad.
- Trwy'r Swyddog a'r Cydlynwyr Datblygu Artistiaid, sicrhau bod adroddiadau misol yn cael eu paratoi a'u huwchlwytho i Salesforce yn brydlon.
- Gweithio gyda'r Swyddog a'r Cydlynwyr Datblygu Artistiaid i sicrhau bod gwerthuso cyson yn digwydd ac i ddynodi sut y gallwn wella ein monitro a'n dull o roi adroddiadau.



Christmas No.1 (Hijinx Odyssey 2025), Kirsten McTernan

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL PARHAD.

- Gyrru recriwtio cynaliadwy ar gyfer Academïau a Sylfeini Drama trwy ddatblygu a chynnal cyswllt gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, rhwydweithiau a phrosiectau anabledd o gwmpas Cymru i sicrhau cyfathrebu clir ac i sicrhau'r cyfleoedd gorau i gyfranogwyr i gael mynediad at ein darpariaethau
- Gweithio'n glos gyda'r Cynhyrchydd i ddynodi cyfleoedd ar gyfer llwybrau cynnydd rhwng prosiectau cyfranogol Hijinx a'n rhaglen datblygu artistiaid.
- Cynnal momentwm o ran datblygu artistiaid gan ddarparu parhad, cyfarwyddyd a chefnogaeth i sicrhau bod ein hartistiaid a chyfranogwyr yn parhau i ffynnu a chyrraedd eu potensial llawn.
- Sicrhau bod prosesau cadarn yn bodoli, ar y cyd â'r Arweinydd Hygyrchedd ac adrannau eraill, i alluogi artistiaid dan hyfforddiant i gael cyfleoedd datblygu gyda digon o amser i'w hanghenion llesiant a mynediad gael eu bodloni.
- Rhoi cyfarwyddyd i dimau eraill am weithio gyda'r artistiaid dan hyfforddiant, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm am unrhyw newidiadau i amgylchiadau sydd angen eu hystyried wrth gyflogi'r artistiaid.
- Cydlynu cyfleoedd datblygu mewnol i artistiaid dan hyfforddiant sy'n digwydd yn ystod amser yr Academi a chydweithio gyda rhaglen greadigol Hijinx i ddynodi a hwyluso cyfleoedd ymgyfoethogi i'n hartistiaid dan hyfforddiant. Gall hyn gynnwys:
  - Preswylfeydd artistig dan arweiniad cwmnïau allanol
  - Cyfleoedd i gymryd rhan yn arwain at brofiad o berfformio
  - Cydweithio ar gynyrchiadau Theatr Stryd
  - Cydweithio ar ddethol aelodau Ensemble Hijinx



Astronauts, Unity Festival (2022)
Kirsten McTernan

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL PARHAD.

- Eiriol dros yr artistiaid dan hyfforddiant, gan sicrhau bod y cyfleoedd yn addas ac yn cael eu darparu yn gyfartal a theg i bawb yn ôl eu sgiliau a'u gallu (gyda'r gefnogaeth ychwanegol angenrheidiol)
- Rheoli a gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Asiantaeth wrth ddarparu cyfleoedd i artistiaid dan hyfforddiant i gael gwaith yn fewnol ac allanol.
- Gweithio'n glos gyda'r Rheolwr Hyfforddiant wrth roi cyfleoedd ar gyfer gwaith ar brosiectau hyfforddi allanol y sefydliad.

Diogelu

- Fel Swyddog Diogelu ar gyfer y sefydliad, gweithio gyda'r arweinyddion Diogelu (y Cyd Brif Swyddogion Gweithredol) i ddarparu darpariaeth Ddiogelu gadarn yn unol â Pholisi Diogelu'r cwmni.
- Gweithio'n glos gyda'r Cyd Brif Swyddogion Gweithredol a'r Ymddiriedolwr Diogelu fel rhan o'r pwyllgor Diogelu i sicrhau ymarfer gorau, cyfleu'r disgwyliadau i Reolwyr a staff eraill, a gweithredu fel hyrwyddwr Diogelu ar draws y sefydliad.
- Dyrchafu unrhyw bryderon diogelu/llesiant i'r Arweinyddion Diogelu a/neu'r Ymddiriedolwr Diogelu yn ôl yr angen.

Rheolaeth Ariannol a Chodi Arian

- Gweithio'n glos gyda'r Cyd Brif Swyddogion Gweithredol ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, i greu, a rheoli'r gyllideb Ddatblygu Artistiaid flynyddol, gan gynnwys rhagolygon chwarterol.
- Sicrhau bod y rhaglen Datblygu Artistiaid yn gynaliadwy.



Amdani! Conwy Induction with Hijinx, Venue Cymru. Paul Davies - Cambrian Photography

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL PARHAD.

- Cymryd rhan mewn ymdrechion codi arian, gan weithredu ar y weledigaeth i ddenu cyfranwyr, grantiau a nawdd.
- Cadw at y protocolau cyllid i'r cwmni a sicrhau bod unrhyw ofynion o ran rhoi adroddiadau yn cael eu bodloni.

Rheoli Llinell ac Arweinyddiaeth Tîm

- Rhoi rheolaeth perfformiad effeithiol a chefnogol i'r tîm Datblygu Artistiaid.
- Rheoli, cynnal a datblygu ein tîm o weithwyr llawrydd yn gysylltiedig â datblygu artistiaid.
- Cyfrannu'n adeiladol wrth recriwtio a chynefino aelodau newydd o'r tîm.
- Arwain ac ysgogi'r tîm Datblygu Artistiaid, gan sicrhau bod cyfleoedd cyson i sgwrsio a rhannu syniadau a gwybodaeth.
- Dynodi anghenion datblygu ar gyfer y tîm.
- Rheoli unrhyw gysylltiadau â gweithwyr gyda chefnogaeth y Cyd Brif Swyddogion Gweithredol a chefnogaeth Adnoddau Dynol allanol os bydd angen.

Arwain Strategaeth a'r Sefydliad

- Cyfrannu at yr Uwch Dîm Rheoli fel aelod cydweithredol, yn canolbwyntio ar ddatrysiadau, gan siapio blaenoriaethau, strategaeth a chysoni trawsadrannol yn y sefydliad.
- Cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am siapio cyfeiriad, strwythur a blaenoriaethau'r sefydliad at y dyfodol.



Grumpy Unicorns, Jorge Lizalde

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL PARHAD.

- Cyfrannu at strategaeth sefydliadol Hijinx, y cynllun busnes a'r cynllunio creadigol aml-flwyddyn.

Cyfathrebu a Systemau Mewnol

- Goruchwylio datblygu a gwella parhaus ar gyfathrebu, systemau a phrosesau mewnol i hyrwyddo cydweithio a llif gwybodaeth effeithiol.
- Gweithio gyda chydweithwyr i liflinio llif gwaith, lleihau dyblygu a gwella effeithlonrwydd sefydliadol.

Arwain o ran Cynrychiolaeth ac Eiriolaeth

- Gweithredu fel llysgennad i Hijinx, gan gynrychioli'r sefydliad i gyllidwyr, partneriaid allanol a rhanddeiliaid eraill yn genedlaethol a rhyngwladol.
- Datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda chyfranogwyr, actorion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau gyda gwasanaethau cymdeithasol, partneriaid Mentrau Cymdeithasol, lleoliadau a rhanddeiliaid eraill.
- Bod yn bresenoldeb gweladwy yn y sector Celfyddydau i'r Anabl, gan hyrwyddo enw da a gwaith Hijinx.

Hygyrchedd

- Cyfrifoldeb a rennir am fynediad ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod ein harferion gwaith a phrosesau mor hygyrch ag sy'n bosibl.



Housemates, Mark Douet

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL PARHAD.

- Gweithio ochr yn ochr â'r Cyd Brif Swyddogion Gweithredol a'r Arweinydd Hygyrchedd i ddynodi gwelliannau i'ch maes a gweithredu ar yr argymhellion.
- Sicrhau bod actorion Hijinx a chyfranogwyr yn cael y profiad gorau posibl yn gweithio ar brosiectau mewnol ac allanol a bod eu hanghenion hygyrchedd yn cael eu bodloni.

Y Gymraeg, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chynaliadwyedd

- Hyrwyddo defnydd teg o'r Gymraeg yn unol â'n polisi a chynllun gweithredu.
- Gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad i gyflawni mewn cymhariaeth â'n cynllun cydraddoldeb strategol a sicrhau bod ein gwaith yn hygyrch a chynhwysol.
- Yn unol â'n Polisi Cynaliadwyedd a Chynllun Gweithredu, a phan na fydd yn effeithio ar hygyrchedd, sicrhau bod y gwaith yn cadw at egwyddorion cynaliadwyedd a Llyfr Gwyrdd y Theatr.

Llywodraethiant

- Arwain ar baratoi papurau i'r bwrdd a rhoi adroddiadau am y Rhaglen Datblygu Artistiaid.
- Cefnogi datblygiad y bwrdd trwy gyfathrebu clir, dealltwriaeth a gwybodaeth am y sector.
- Mynychu cyfarfodydd y bwrdd yn gyson.



Pirates of the Odyssey Inn (Hijinx Odyssey 2024), Kirsten McTernan

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL PARHAD.

Cyffredinol

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant yn ôl y gofyn.
- Ar y cyd â staff eraill, bod yn gyfrifol am weithredu, monitro a datblygu polisïau Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb Strategol, Diogelu, Amgylcheddol Hijinx a pholisïau eraill perthnasol.
- Teithio yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ôl y gofyn.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol yn ôl y gofyn.
- Sicrhau, ar y cyd â'r Swyddog Iechyd a Diogelwch, bod yr holl asesiadau risg a gweithdrefnau yn gyfredol i'r holl weithgareddau datblygu artistiaid.
- Ynghyd â'n Swyddog Diogelu Data, sicrhau bod holl systemau a phrosesau'r Academi yn cael eu cynnal yn unol â'n Polisi Diogelu Data.

MANYLEB PERSON

Sgiliau a Gallu	Esssential	Desirable
Sylw rhagorol i fanylion	X	
Y gallu i weithio'n gydweithredol ar draws gwahanol dimau, partneriaid a grwpiau cymunedol, gan reoli perthnasau rhanddeiliaid yn rhagweithiol	X	
Cynnal safonau ansawdd cyflawni ar draws ein rhaglen Academïau	X	
Sgiliau trefniadol cryfion a'r gallu i reoli prosiectau lluosog	X	
Entrepreneuraidd gyda'r gallu i fod yn flaengar a chwilio am neu ymateb i gyfleoedd fydd yn codi proffil Academïau Hijinx	X	
Sgiliau negodi, cyllidebu a chofnodi ariannol cryfion	X	
Y gallu i gadw'n dawel, cadarnhaol a phroffesiynol wrth weithio dan bwysau	X	
Gwydn a'r gallu i addasu ac ymateb i amgylchiadau sy'n newid, gan weithio trwy sialensiau yn drefnus ac ymarferol	X	
Y gallu i siarad Cymraeg		X
Diddordeb brwd yn y celfyddydau ac ymgysylltu cymunedol	X	

MANYLEB PERSON PARHAD

Profiad	Esssential	Desirable
Lleiafswm o 3 mlynedd o brofiad mewn swydd debyg sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol	X	
Profiad o reoli cyllidebau	X	
Profiad o ddylunio a darparu rhaglenni hyfforddi proffesiynol yn y celfyddydau a diwylliant	X	
Profiad profedig o gychwyn a datblygu partneriaethau a chyweithiau effeithiol a llwyddiannus	X	
Hyderus wrth weithio gydag actorion anabl a heb fod yn anabl	X	
Profiad o ddiogelu oedolion agored i niwed	X	
Profiad o weithredu fframweithiau gwerthuso mewn prosiectau a chasglu a dadansoddi data i ddylanwadu ar brosiectau yn y dyfodol a gwaddol		X
Profiad o reoli llinell	X	

MANYLEB PERSON PARHAD

Gwybodaeth	Esssential	Desirable
Gwybodaeth am arfer gorau a datblygu polisi ar gyfer hygyrchedd, cynhwysiant, amrywiaeth a diogelu	X	
Gwybodaeth am yr heriau a'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl ac awtistig yn y celfyddydau	X	
Ymwybyddiaeth o gyfreithiau'r Deyrnas Unedig yng nghyswllt anabledd dysgu ac awtistiaeth		X
Ymwybyddiaeth o'r tueddiadau a datblygiadau presennol yn y Sector Celfyddydau Anabledd		X
Agwedd		
Ymrwymiad i ragoriaeth artistig gyda'r gallu a'r dyhead i weithio ar y cyd ac yn gynhwysol	X	
Ymrwymiad i ddynodi a chynnig cyfleoedd creadigol i ddatblygu talent	X	
Wedi ymrwymo o ddifrif i weithio gydag actorion ag anabledd dysgu a/neu awtistig	X	
Hanes o fod yn barchus a hael gydag artistiaid eraill ac aelodau'r tîm	X	
Cyd-fynd â gwerthoedd a diwylliant creiddiol Hijinx	X	

TELERAU

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid

Rheolwr Llinell: Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyd Brif Swyddog Gweithredol

Yn gyfrifol am: Y Swyddog Datblygu Artistiaid – De; Cydlynydd Datblygu Artistiaid – Gogledd; Cydlynydd Datblygu Artistiaid – Gorllewin; Rheolwr Asiantaeth

Contract: 9 mis am gyfnod mamolaeth

Oriau: Rhan-amser, 22.5 awr i'w cyflawni'n hyblyg yn ôl y gofyn i gyflawni gofynion y swydd. Rhoddir amser o'r gwaith in lieu.

Yn gweithio o: Swyddfa Hijinx, Canolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd – gweithio hybrid ar gael

Cyflog/Buddion: £37,000 y flwyddyn pro-rata (cyflog gwirioneddol am gontract 9 mis £16,650)

Mae Hijinx yn cynnig cynllun pensiwn gweithle trwy Nest, cynllun Beicio i'r Gwaith a Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr.

Yn ychwanegol, rydym yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Mae Hijinx wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n glos gyda deiliad y swydd i sicrhau bod ei anghenion hyfforddiant yn cael eu bodloni.

Gwyliau: 30 diwrnod y flwyddyn pro rata



Doctor Dolittle's Wild Adventure (Hijinx Odyssey 2022), Kirsten McTernan

NODIADAU CYFFREDINOL

- Yn Hijinx rydym wedi ymrwymo i greu gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth.

- Mae ein cynlluniau'n uchelgeisiol, wedi eu creu ar gyfer, gan a gyda'r cymunedau yr ydym yn gweithio gyda nhw.

- Rydym yn angerddol am yr hyn yr ydym yn ei wneud ac mae gennym ymdeimlad cryf o gymuned. Fel tîm rydym yn poeni'n ddwys am deulu ehangach Hijinx ac mae gennym ddiwylliant cynnes, cynhwysol a chefnogol sy'n gadael i bobl fyw eu bywydau gorau, mwyaf dilys. Rydym wedi ymrwymo i ymdrin â diffyg cyfartaledd yn y byd celfyddydol yng Nghymru gan roi actorion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn ganolog ar draws pob rhan o'n gwaith.

- Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a restrir ac yn unol â'n hymagwedd gydweithredol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall fel sy'n briodol i'w rôl ar gais ei reolwr llinell.

Diogelu - Mae cynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau sy'n dangos ei hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig.

disability confident LEADER

itc 2026-2027 Fair Work Approved

Cynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol Cultural Competence Certification Scheme
Gwobr Arian Teilyngdod Silver Award Merit
2024 – 2026

PiPA Parents & Carers in Performing Arts

HYGYRCHEDD A CHYNHWYSIANT

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigolion. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr **Cyfle Cyfartal a Hyderus am Anabledd**, a denu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt wedi eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu yn Hijinx, rydym yn darparu **Cynllun Cyfweliad Gwarantedig** i ymgeiswyr nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt ar ein tîm. Gallwch gael eich ystyried dan y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig os ydych yn dioddef hiliaeth, yn Fyddar, anabl, yn berson ag anabledd dysgu, niwrowahanol, â chyflwr corfforol neu iechyd meddwl tymor hir, yn LHDTC+ neu yn uniaethu fel rhywun dosbarth gweithiol. Ar yr amod eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, sy'n cael eu nodi yn y fanyleb person, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad. Dim ond gyda thîm adnoddau dynol Hijinx a'r rheolwr sy'n recriwtio y bydd eich cais am gyfweliad gwarantedig yn cael ei rannu.

Os hoffech chi gael eich ystyried dan y cynllun, dynodwch hyn yn glir yn eich cais.

Pwysig: dan rai amgylchiadau recriwtio fel amseroedd prysur, efallai y bydd raid i ni gyfyngu'r nifer o gyfweliadau a gynigir. Bydd hyn yn cynnwys y nifer o gyfweliadau a gynigir trwy'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig. Yn y sefyllfa hon, bydd Hijinx yn sicrhau bod nifer deg a chymesur o ymgeiswyr o gymunedau nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol (sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd hon) yn cael cynnig cyfweliad.



The Audience, Unity Festival (2026), Kirsten McTernan

I WNEUD CAIS

Os credwch eich bod chi yn addas ar gyfer y swydd ac y byddech yn hoffi ymgeisio, anfonwch y canlynol atom:

1. **CV cyfredol** – yn amlygu unrhyw brofiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol.
2. **Llythyr esboniadol dim mwy na 4 tudalen** – yn dweud wrthym ni pam bod gennych ddiddordeb yn y swydd a sut y mae eich profiad yn cyd-fynd â'r fanyleb person.
3. **Ffurflen Monitro Amrywiaeth wedi ei llenwi** – i'w llenwi ar-lein yma. Cadarnhewch yn y llythyr esboniadol eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon.

Rydym yn gwybod y gall ymgeisio am swyddi fod yn brofiad anodd weithiau – yn arbennig os nad yw prosesau arferol yn gweithio i chi bob tro. Os nad ysgrifennu yw eich dewis o ran cyfathrebu, gallwch anfon fideo neu ffeil sain atom (hyd at 5 munud) yn hytrach na llythyr esboniadol ysgrifenedig.

Dylid anfon ceisiadau at jobs@hijinx.org.uk erbyn **hanner nos, 9 Tachwedd 2026.**

AMSERLEN RECRIWTIO

09 Tach: Ceisiadau yn cau am hanner nos
w/c 09 Tach: Ceisiadau yn cael eu sgrinio a'u gwneud yn ddienw, a'r rhestr fer yn cael ei llunio
13 Tach: Bydd pob ymgeisydd wedi cael penderfyniad
20 Tach: Cyfweliadau
23 Tach: Penderfyniad a rhoi cynnig

Rydym yn gwybod bod amgylchiadau pawb yn wahanol, felly rydym yn barod i weithio gyda'r ymgeisydd llwyddiannus i gytuno ar ddyddiad dechrau sy'n teimlo'n iawn, gan ystyried yr ymrwymiadau sy'n bodoli ac argaeledd.



Edrychwn ymlaen at gael clywed gennych chi!

jobs@hijinx.org.uk

029 2030 0331

Housemates, Mark Douet